

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro, Practis  
Deintyddol Stryd Fawr, y  
Bont-faen**

10 Tachwedd 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [AGIC@wales.gsi.gov.uk](mailto:AGIC@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Atodiad A.....	24

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, defnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Deintyddol Stryd Fawr yn 57 Stryd Fawr, y Bont-faen ar 10 Tachwedd 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Stryd Fawr yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Stryd Fawr yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Bont-faen, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Practis Deintyddol Stryd Fawr yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â rhai o wasanaethau'r GIG.

Mae tîm practis y staff yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tair nyrs ac un rheolwr practis, sydd hefyd yn gweithio yn y dderbynfa.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

### 3. Crynodeb

Roedd yr adborth a dderbyniom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom hefyd argymell diweddarau'r weithdrefn gwyno, ac y dylai chael ei harddangos er mwyn i gleifion ei gweld.

Yn gyffredinol, roedd y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn ddigonol, ond gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau. Gwnaethom hefyd nodi nifer o welliannau oedd eu hangen, a oedd yn berthnasol yn bennaf i agweddau ar gyfleusterau clinigol, cyfarpar radiograffeg, cyfarpar dadebru, a chofnodion cleifion.

Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintyddion a rheolwr y practis. Er bod y staff y siaradom â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, gwnaethom ganfod bod angen nifer o welliannau yn y polisiau, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg sy'n cynnal diogelwch y gofal a ddarperir ac sy'n helpu i warchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod digon o drefniadau rheoli effeithiol ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Roedd adborth y cleifion a dderbyniom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu system i gasglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom hefyd argymell y dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno, ac y dylid ei harddangos er mwyn i gleifion ei gweld.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Proffesiynol ac ar amser bob tro. Mae gen i broblemau gyda dau ddiwrnod yr wythnos, a threfnir apwyntiadau yn fodlon o gwmpas fy anghenion bob tro."*

*"Rydw i wedi bod yn hapus iawn gyda'r driniaeth rydw i a fy rheulu wedi'i derbyn. Proffesiynol iawn, ac eto wastad yn gyfeillgar â'r teulu."*

*"Rydw i'n hynod o hapus gyda lefel y gofal rydw i'n ei derbyn gan y feddygfa. Deintydd ardderchog, a phobl hyfryd a chyfeillgar iawn. Pob agwedd o ofal o ansawdd uchel iawn."*

### **Gofal gydag urddas**

Gwelsom dystiolaeth sy'n dangos y darperid gofal i gleifion mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod gofod er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn ardal breifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn unfrydol gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai

cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y sawl a oedd wedi profi oedi nad oeddent wedi aros yn hir iawn.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt mewn argyfwng tu allan i oriau yn cael ei ddarparu ar neges peiriant y practis, fel bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol pan fydd y practis ar gau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwydd yn cael ei arddangos tu allan i'r practis gyda'r wybodaeth hon, a gwnaethom argymhell bod y practis yn cywiro hyn. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid dangos yr oriau agor sydd tu allan i'r practis yn fwy eglur.

### **Cadw'n iach**

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd yr holiaduron wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaethau. Gwnaethom sylwi bod nifer isel iawn o daflenni/posteri sy'n hyrwyddo iechyd yn yr ystafell aros. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd, megis ymwybyddiaeth o ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, a gwybodaeth am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.***

### **Gofal unigol**

Mae'r practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf, ac o achos cyfyngiadau'r adeilad, ceir mynediad drwy res o risiau nad yw'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn, na chwaith i gleifion sydd ag anawsterau symudedd.

Dywedwyd wrthym fod y ddau brif ddeintydd yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol; roedd un deintydd yn darparu rhai triniaethau'r GIG ac roedd y deintydd arall yn darparu triniaeth breifat yn unig. O ganlyniad, gwnaethom ganfod bod nifer o daflenni gwybodaeth i gleifion oedd yn cynnwys gwybodaeth wahanol, rhai ar gyfer un deintydd yn unig. Gwnaethom ganfod y gallai hyn ddrysio cleifion ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis, a gwnaethom argymhell y dylid cynhyrchu un daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys yr holl wasanaethau a ddarperir.

***Yr hyn sydd angen ei wella***



***Dylid darparu gwybodaeth glir i gleifion ynglŷn â'r holl wasanaethau a ddarperir, ac am y gweithwyr proffesiynol deintyddol sy'n gweithio yn y practis. Yn benodol, dylid gwneud hyn drwy ddarparu taflen wybodaeth gynhwysfawr i gleifion.***

Er y dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i siarad gyda'r staff ynglŷn ag unrhyw faterion neu bryderon, gwnaethom ganfod nad oedd gan y practis system er mwyn derbyn adborth gan gleifion yn rheolaidd, megis drwy arolygon cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu system er mwyn ceisio barn cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.***

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion godi pryderon (cwynion). Gwnaethom ganfod bod yr amserlenni a ddarperir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynglŷn â thriniaethau'r GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.<sup>1</sup> Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn glir ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau dylai cleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a oeddent yn derbyn triniaeth y GIG neu driniaeth breifat. Gwnaethom hefyd ganfod bod y weithdrefn yn cyfeirio'n anghywir at y Comisiwn Gofal Iechyd yn Llundain, yn hytrach nag AGIC. Roedd angen manylion sefydliadau eraill y gall cleifion gysylltu â nhw, megis y cyngor iechyd cymuned, y bwrdd iechyd lleol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi/gweithdrefn gwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:***

- ***Bod y cyfeiriadau at y Comisiwn Gofal Iechyd yn cael eu disodli gan fanylion cyswllt AGIC***
- ***Bod manylion y bwrdd iechyd lleol, y cyngor iechyd cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu cynnwys ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG***

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

- ***Bod y weithdrefn gwyno yn eglur ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol y gall cleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.***

Gwelsom fod poster a oedd yn cyfeirio'n fyr at yr hyn dylai cleifion ei wneud os oeddent yn anhapus gyda'u gofal, ond nid oedd hwn yn cynnwys manylion llawn y weithdrefn gwyno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid arddangos y weithdrefn gwyno lawn lle gall cleifion ei gweld. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon.***

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gŵyn ysgrifenedig. Dywedwyd wrthym fod cwynion llafar ac anffurfiol yn cael eu cofnodi yn ffeiliau'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis y byddai'n fwy addas i gynnwys y rhain mewn ffeil ar wahân, fel bod modd monitro'r cwynion hyn.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod y trefniadau er mwyn gwarchod staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn yn ddigonol, ond gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau. Gwnaethom hefyd nodi nifer o welliannau sydd eu hangen, yn bennaf yn berthnasol i agweddau ar gyfleusterau clinigol, cyfarpar radiograffeg, cyfarpar dadebru, a chofnodion cleifion.

### **Gofal diogel**

#### *Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom y cynhaliwyd profion dyfeisiadau cludadwy i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiadau trydanol bach yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth brintiedig o'r prawf dyfeisiadau cludadwy yn ddigonol, am nad oedd yn nodi'n benodol pa eitemau o gyfarpar oedd wedi'u profi.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cadw cofnodion cyflawn ar ôl cynnal profion dyfeisiadau cludadwy, gan gynnwys manylion ar ba eitemau o gyfarpar a brofwyd.***

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r peiriant a ddefnyddir i ddarparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a gwnaethom ganfod bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r math o wasanaethu sydd ei angen, yn dibynnu ar fodel y peiriant. Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu wedi'u cofnodi.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ymgynghori â gwneuthurwr y peiriant cywasgu ynglŷn â chanllawiau gwasanaethu a chynnal a chadw, a sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn fel bod y cyfarpar yn cael ei gadw mewn cyflwr diogel.***

***Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu a gyflawnir gan y staff (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).***

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod yn strategol, ac wedi'u gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad

oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau sydd heb eu defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau sydd heb eu defnyddio.***

Dywedwyd wrthym fod y ddyfais er mwyn gwahanu amalgamau (mercwri), sydd yn rhan o'r uned sugnedd fel arfer, wedi'i hadeiladu'n rhan o'r cadeiriau deintyddol. Am nad yw hyn yn nodwedd gyffredin, gwnaethom atgoffa'r practis o'u dyletswydd i sicrhau bod y trefniant hwn yn effeithiol.

Roedd y ddwy ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y sêl wedi torri rhwng y llawr a'r waliau mewn rhai ardaloedd, ac roedd angen ei hailselio i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis roi sylw i'r manau lle mae'r sêl rhwng y llawr a'r wal wedi torri, i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.***

Gwnaethom ganfod nad oedd y practis yn defnyddio'r system ddiogel a argymhellir i gael gwared ar nodwyddau, er mwyn atal anafiadau gan offer miniog. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried defnyddio system fwy diogel.

***Rheoli heintiau***

Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn ddigonol, ond gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau.

Roedd gan y practis ystafell ar wahân ar gyfer dadheintio offer, mewn ystafell a oedd yn arfer bod yn ystafell driniaeth. Gwnaethom ganfod bod yno sinc benodol ar gyfer golchi dwylo, a bod y practis yn defnyddio powlenni gwahanol er mwyn glanhau a rinsio offer. Fodd bynnag, ni ddefnyddir dŵr yfed na dŵr wedi'i ddistyllu'n ffres i rinsio'r offer, fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod dŵr yfed neu ddŵr wedi'i ddistyllu'n ffres ar gael er mwyn rinsio offer, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Gwnaethom ganfod bod y practis yn defnyddio math bach o ddiheintydd (Statim Cassette Autoclave) ar gyfer yr holl offer deintyddol yn y practis. Am fod y math hwn o ddiheintydd yn cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer offer llaw deintyddol yn unig, yn hytrach nag ar gyfer pob math o offer deintyddol, mae angen i'r practis sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio yn y modd hwn. Er y cynhelir profion dyddiol ar y diheintydd, dylai'r practis sicrhau bod y profion yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ymgynghori â chanllawiau'r gwneuthurwr, a sicrhau bod y diheintydd yn addas ar gyfer yr holl offer ac nid yr offer llaw deintyddol yn unig.***

***Dylid cynnal gwiriadau dyddiol ar y diheintydd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.***

Gwelsom fod dyddiad dod i ben ar yr offer oedd wedi'u storio; fodd bynnag, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylid cynnwys y dyddiad y glanhawyd yr offer hefyd. Gwnaethom hefyd ganfod bod anghysondeb rhwng y cyfnod hiraf y gellid storio offer a nodwyd yn y polisi rheoli heintiau, a'r cyfnod storio a ddefnyddir gan staff. Er bod y ddau gyfnod storio yn addas, dylai hyn fod yn gyson gyda'r polisi rheoli heintiau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid dyddio offer sydd wedi'u lapio gyda'r dyddiad glanhau, ac ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, y dyddiad dod i ben.***

***Dylai'r practis sicrhau bod y trefniadau rheoli heintiau, gan gynnwys y cyfnod storio ar gyfer offer, yn gyson gyda'r polisi rheoli heintiau.***

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, ond gwnaethom sylwi bod y dull archwilio a ddefnyddiwyd wedi'i lunio'n bennaf i'w ddefnyddio yn Lloegr, a gwnaethom argymhell bod y practis yn defnyddio'r dull archwilio a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sydd ar gyfer Cymru yn benodol.

### *Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis mewn achos o argyfwng claf (llewygu). Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen newid y batri ar y diffibriliwr. Gwnaethom argymhell bod y practis hefyd yn cadw batri wrth gefn, a chynnwys y diffibriliwr fel rhan o'r gwiriadau wythnosol ar y cyfarpar dadebru.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwirio'r holl offer dadebru, gan gynnwys y diffibriliwr, yn wythnosol, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.***

***Dylid trefnu batri wrth gefn i'r diffibriliwr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.***

Gwnaethom ganfod bod gan y practis bolisi byr ar ddadebru, ond gwnaethom argymhell y dylid cael siartiau llif sy'n darparu canllawiau ar y weithdrefn i'w dilyn mewn amrywiaeth o argyfyngau meddygol. Dylid eu cynnwys gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, er mwyn galluogi mynediad hawdd i'r wybodaeth berthnasol mewn argyfwng.

Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis weithiwr cymorth cyntaf cymwys a phenodedig. Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd rhai deunyddiau yn y bocs cymorth cyntaf, gan gynnwys golchwr llygad, plasteri a thâp dresin.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai fod gan y practis staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf, a dylid sicrhau bod bocs cymorth cyntaf cyflawn ar gael.***

### *Diogelu*

Ac eithrio un deintydd, roedd y staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diweddar mewn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.***

Gwnaethom ganfod bod rhywfaint o wybodaeth diogelu plant ar gael, a oedd yn cynnwys cysylltiadau diogelu lleol, ond nid oedd gan y practis bolisi ffurfiol ar

amddiffyn plant. Gwnaethom ganfod bod angen diweddarau'r polisi amddiffyn oedolion, nad oedd yn cynnwys cysylltiadau diogelu oedolion lleol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi amddiffyn plant, a diweddarau'r polisi amddiffyn oedolion.***

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff godi unrhyw bryderon. Gwnaethom drafod y gwiriadau cyn cyflogaeth ar gyfer aelodau posibl o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, a gwnaethom argymhell y dylai'r practis gynnwys tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'r gwiriadau hyn. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod un deintydd heb dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Cytunodd y deintydd i roi sylw i hyn.

***Offer radiograffeg***

Gwelsom ddogfennaeth oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant i fodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>3</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom ganfod bod angen diweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion am gyfarpar a gweithdrefnau pelydr-X i staff eu dilyn, i gynnwys enwau'r Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd a'r Goruchwyliwr Diogelwch Ymbelydredd. Gwnaethom hefyd ganfod bod y ffeil yn cynnwys enwau staff nad sy'n gweithio yn y practis bellach. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi eu hysbysu am y cyfarpar radiograffeg a ddefnyddir yn y practis. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i wneud rhai blynyddoedd yn ôl.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid diweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.***

---

<sup>3</sup>Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael eu hysbysu am y defnydd o gyfarpar radiograffeg, a dylid cadw tystiolaeth o hyn.***

Gwnaethom sylwi bod y ddwy ystafell driniaeth yn cael eu cysylltu gan ddrws llithro pren. Roedd gan yr ystafelloedd triniaeth ofod cyfyngedig rhwng yr ardaloedd ble tynnir pelydrau-X a'r drws hwn, nad oedd yn darparu amddiffyniad oddi wrth ymbelydredd pelydr-X. Er mwyn sicrhau nad yw staff a chleifion yn yr ystafell driniaeth gysylltiol yn cael eu datguddio i ymbelydredd yn ddiangen, gwnaethom argymhell bod y rheolau lleol yn cael eu diweddarau i ddangos yr ardaloedd rheoledig yn glir. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn sicrhau bod gweithdrefnau digonol ar waith, er mwyn atal y staff rhag mynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth trwy'r drws cysylltiol tra bod pelydrau-X yn cael eu cymryd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddarau'r rheolau lleol er mwyn dangos yr ardaloedd rheoledig yn glir ym mhob ystafell driniaeth, a sicrhau bod systemau addas er mwyn atal y staff rhag mynd i mewn i'r ardaloedd rheoledig tra bod pelydrau-X yn cael eu cymryd.***

Gwnaethom sylwi nad oedd arwyddion rhybuddio am ddatguddiad i ymbelydredd wedi'u harddangos er mwyn nodi'r manau rheoledig. Yn benodol, nid oedd un ar gael ar y drws i'r ystafell driniaeth. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 yn nodi y dylai fod digon o arwyddion addas yn cael eu harddangos yn rhybuddio am ymbelydredd yn y manau rheoledig/dan oruchwyliaeth, ac y dylid disgrifio'r manau rheoledig/dan oruchwyliaeth yn y rheolau lleol. Cytunodd y practis i gywiro hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle.***

Gwnaethom ganfod nad oedd archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffeg yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan y ddau ddeintydd. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau radiograffeg yn cael eu cynnal yn rheolaidd.***



## **Gofal effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Nid oedd y staff clinigol yn derbyn adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid, er y dywedwyd wrthym fod trafodaethau ad hoc yn cael eu cynnal ynglŷn ag unrhyw broblemau clinigol. Gwnaethom ganfod bod ymwneud y practis gydag archwiliadau clinigol, fel modd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, yn gyfyngedig. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o staff clinigol y practis ac archwiliadau rheolaidd yn y practis, fel modd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygu staff clinigol gan gymheiriaid a chynnal archwiliadau rheolaidd.***

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl bychan o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd yn y practis. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl gofnodion cleifion ar ffurf papur yn unig. Roedd hyn yn golygu bod gofod cyfyngedig ar gardiau cofnod y cleifion i'r deintyddion ysgrifennu nodiadau. Gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd bod tro, fel modd o sicrhau eu bod yn gywir ac wedi eu gwirio.
- Gwnaethom ganfod nad oedd yn bosib nodi pwy oedd wedi trin y claf yn ôl eu nodiadau bob tro.
- Gwnaethom sylwi nad oedd digon o ofod i gynnwys holl fanylion y claf, gan gynnwys eu cyfeiriad, ar y cardiau cofnod preifat.
- Nid oeddem yn gallu lleoli cynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion y GIG na chleifion preifat, am nad oedd copïau wedi'u cadw yng nghofnodion y cleifion.
- Nid oedd opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n rheolaidd.
- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys ysmegu, yfed alcohol na hylendid y geg, yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Nid oedd cyfiawnhad dros gymryd pelydr-X a'r canfyddiadau clinigol o sganiau pelydr-X (beth roedd y pelydr-X yn ei ddangos) yn cael eu cofnodi bob amser.

- Er bod adalwadau cleifion (yr amledd a argymhellir rhwng ymweliadau cleifion) yn cael eu cofnodi, nid oedd unrhyw gyfeiriad at y canllawiau perthnasol.<sup>4</sup>

Nid oedd Archwiliad Periodontol Sylfaenol<sup>5</sup> • wedi'i nodi ar un cofnod y gwnaethom ei archwilio.

- Nid oedd archwiliadau ceg allanol (meinwe meddal) yn cael eu cofnodi'n rheolaidd.

Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn cofnodi sgrinio canser y geg yng nghofnodion y cleifion.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'n rheolaidd:***

- ***Hanes meddygol wedi'i lofnodi***
- ***Manylion adnabod y gweithiwr deintyddol proffesiynol sy'n darparu'r driniaeth***
- ***Gofod digonol i gynnwys manylion claf mewn cofnodion preifat, gan gynnwys eu cyfeiriad***
- ***Cynlluniau triniaeth (dylai fod copïau ar gael yng nghofnodion cleifion)***
- ***Opsiynau triniaeth***
- ***Hanes cymdeithasol***
- ***Cyfiawnhad dros sganïau pelydrau-X ynghyd â'r canfyddiadau***
- ***Adalwadau cleifion***
- ***Archwiliadau periodontol sylfaenol***
- ***Archwiliadau ceg allanol***

---

<sup>4</sup>Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn darparu canllawiau ar amledd adalwadau cleifion.

<sup>5</sup>Mae Archwiliadau Periodontol Sylfaenol yn cael eu defnyddio er mwyn cael darlun bras yn gyflym o gyflwr periodontol ac anghenion triniaeth unigolyn.

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Rheolir y practis o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Er bod y staff y siaradom â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, gwnaethom ganfod bod angen nifer o welliannau yn y polisiau, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg sy'n cynnal diogelwch y gofal a ddarperir ac sy'n helpu i warchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn.**

Cyfrifoldeb y ddau brif ddeintydd a rheolwr y practis (sydd hefyd yn gweithio yn y dderbynfa) yw rheolaeth dydd i ddydd y practis. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis wedi gweithio yn y practis am rai blynyddoedd, ond ei fod yn weddol newydd i'r swyddogaeth hon, a'i fod yn cael ei gefnogi gyda'i dyletswyddau rheoli gan y prif ddeintyddion. Roedd tîm y practis wedi'i hen sefydlu, ac roedd trosiant y staff yn isel. Roedd y staff y siaradom ni â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Gwelsom esiampl o gofnodion i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis raglen gyfarwyddo ffurfiol, am fod mwyafrif y staff wedi'u cyflogi yno ers llawer o flynyddoedd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod staff o asiantaethau yn cael eu defnyddio'n achlysurol, sy'n golygu bod angen rhaglen gyfarwyddo i staff dros dro.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw staff newydd a dros dro yn cael eu cyfarwyddo'n briodol - hynny yw, dylid sefydlu rhaglen hyfforddiant gyfarwyddo.***

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau'n cael eu cynnal. Mae arfarniadau blynyddol i staff yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, ac er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r holl staff dderbyn arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth

breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Gwnaethom sylwi bod angen diweddarau tystysgrif gofrestru AGIC un deintydd, a chytunodd y deintydd fynd i'r afael â hyn.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer mwyafrif y staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ar gael ar gyfer un o'r nyrsys.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylid cadw cofnodion imiwneiddio'r holl staff.***

Roedd gan y practis dîm bach o staff, ac felly roedd cyfathrebu rhwng staff a'r prif ddeintyddion yn digwydd mewn modd anffurfiol a rheolaidd yn bennaf. Cynhelir cyfarfodydd staff ffurfiol tua unwaith bob tri mis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u cofnodi. Gwnaethom argymhell wrth y practis i gynnwys manylder pellach yn nodiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol, er mwyn darparu cofnod cynhwysfawr o drafodaethau a gweithredoedd.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis, a chanfod bod y mwyafrif ohonynt angen eu hadolygu. Gwnaethom hefyd ganfod nad oedd rhai polisiâu gofynnol ar waith. Ar y cyfan, roedd angen trefn ar y polisiâu, a gwnaethom ganfod bod amryw ddarn o wybodaeth oedd wedi dyddio wedi'u cynnwys ochr yn ochr â pholisiâu cyfredol, a olygai i ni gael anhawster wrth adnabod y wybodaeth ddiweddaraf. Gwnaethom nodi bod angen y gwelliannau canlynol i'r polisiâu, y gweithdrefnau a'r ddogfennaeth, ac eithrio'r polisiâu hynny sydd wedi'u crybwyll eisoes yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn:

- Nid oedd y polisi diogelwch data yn cynnwys manylion y trefniadau ar gyfer gwybodaeth staff.
- Roedd angen diweddarau'r polisi iechyd a diogelwch i gynnwys y trefniadau codi a chario, a darpariaeth a defnydd offer gwaith.
- Nid oedd asesiadau risg ynglŷn ag iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau.
- Roedd angen trefniadau i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion.
- Canfuwyd bod asesiadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd wedi'u dyddio gryn dipyn, ac roedd angen eu hadolygu yn unol â chanllawiau diweddaraf yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- Nid oedd dogfen cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn lle.
- Roedd angen gwybodaeth bellach yn y polisi diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys enwau'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a'r Goruchwyliwr.
- Nid oedd polisi trin mercwri ar waith.
- Roedd angen diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys manylion pellach ynghylch y trefniadau ar gyfer hylendid dwylo, cyfarpar diogelu personol, a'r gweithdrefnau ar gyfer dadheintio, yn unol â'r canllawiau o fersiwn ddiwygiedig Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (roedd y wybodaeth i staff a arddangosir ar y pryd yn yr ystafell ddadheintio wedi'i chymryd o hen fersiynau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru).
- Roedd angen diweddarau'r polisi cyfle cyfartal i adlewyrchu sut byddai hyn yn cael ei weithredu yn y practis.
- Roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi dyddio ac angen ei newid.
- Roedd angen tynnu'r cofnodion damweiniau sydd wedi'u cwblhau, a'u cadw'n ddiogel er mwyn gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion. Argymhellwyd y practis i newid y llyfr damweiniau i un sy'n unol â'r canllawiau diweddaraf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb rheolwr blaenorol y practis, oedd wedi gadael y practis, oedd y polisïau a'r gweithdrefnau, a bod rheolwr cyfredol y practis yn ceisio diweddarau'r polisïau ynghyd â'u dyletswyddau yn y dderbynfa. O ystyried nifer y gwelliannau sydd eu hangen i'r polisïau, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg, gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod trefniadau rheoli digonol, fel bod modd diweddarau'r dogfennau hyn mewn modd amserol. Gwnaethom hefyd argymhell y byddai rheolwr y practis yn elwa ar hyfforddiant pellach, er mwyn helpu gyda'r agweddau hyn o reoli.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith ar gyfer creu, adolygu a diweddarau'n rheolaidd yr holl bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg, fel agwedd bwysig o danategu diogelwch y gofal a ddarperir ac er mwyn gwarchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff.***

O ystyried nifer y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

1.

## Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Stryd Fawr yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 2. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### **Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

- Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>6</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>7</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle

---

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>



- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: **Practis Deintyddol Stryd Fawr**

Dyddiad yr arolygiad: **10 Tachwedd 2015**

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
6	Dylid darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.	Safonau lechyd a Gofal 1.1			
6	Dylid darparu gwybodaeth glir i gleifion ynglŷn â'r holl wasanaethau a ddarperir ac am y gweithwyr proffesiynol deintyddol sy'n gweithio yn y practis. Yn benodol, dylid gwneud hyn drwy ddarparu taflen wybodaeth gynhwysfawr i gleifion.	Safonau lechyd a Gofal 4.2 a 6.1			
7	Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y cyfeiriadau at y Comisiwn Gofal Iechyd yn cael eu disodli gan fanylion cyswllt AGIC</li> <li>Bod manylion y bwrdd iechyd lleol, y cyngor iechyd cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu cynnwys i gleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG</li> <li>Bod y weithdrefn gwyno yn glir ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG</li> </ul>	(Cymru), Adran 15 (4a); Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5			
8	Dylid arddangos y weithdrefn gwyno'n llawn lle gellid ei gweld gan gleifion. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon.	Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		5.1.5			
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
	Dylid cadw cofnodion llawn ar ôl profion dyfeisiau cludadwy, gan gynnwys manylion yr offer a brofwyd.	Safonau lechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989			
9	Mae'n rhaid i'r practis ymgynghori â gwneuthurwr y cywasgydd ynglŷn â chanllawiau gwasanaethu a chynnal a chadw, a sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn fel bod y peiriant yn cael ei gadw mewn cyflwr diogel.  Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r cywasgydd a gyflawnir gan y staff (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14 (3); Safonau lechyd a Gofal 2.9			
10	Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cael gwared ar feddyginiaethau sydd heb eu defnyddio.	Safonau lechyd a Gofal 2.4; Safonau'r			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 1.5			
10	Dylai'r practis roi sylw i'r manau lle mae'r sêl rhwng y llawr a'r wal wedi torri, i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.	Safonau lechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05, Adrannau 6.46–6.50			
11	Dylai'r practis sicrhau bod dŵr yfed neu ddŵr wedi'i ddistyllu'n ffres ar gael er mwyn rinsio offer deintyddol, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05.	Safonau lechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05, Adran 3.31			
11	Mae'n rhaid i'r practis ymgynghori â chanllawiau'r gwneuthurwr, a sicrhau bod y diheintydd yn addas ar gyfer yr holl offer deintyddol ac	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru),			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	nid yr offer llaw deintyddol yn unig. Dylid cynnal profion dyddiol ar y diheintydd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.	Adran 14 (3); Safonau lechyd a Gofal 2.9			
11	Dylid dyddio offer sydd wedi'u lapio gyda'r dyddiad glanhau, ac ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, y dyddiad dod i ben.  Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y trefniadau rheoli heintiau, gan gynnwys y cyfnod storio ar gyfer offer, yn cyd-fynd â'r polisi rheoli heintiau.	Safonau lechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05, Adran 1.24			
12	Dylid gwirio'r holl offer dadebru, gan gynnwys y diffibriliwr, yn wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.  Dylid trefnu batri wrth gefn i'r diffibriliwr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.	Safonau lechyd a Gofal 2.9; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.6; Cyngor Dadebru'r DU – canllawiau ar gyfer gofal			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		deintyddol sylfaenol			
12	Dylai fod gan y practis staff sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, a dylid sicrhau bod bocs cymorth cyntaf ar gael.	Safonau lechyd a Gofal 2.1			
12	Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	Safonau lechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5			
13	Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi amddiffyn plant, a diweddarau'r polisi amddiffyn oedolion.	Safonau lechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5			
13	Mae'n rhaid diweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, i gynnwys yr holl wybodaeth	Safonau lechyd a Gofal 2.1 a			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>berthnasol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i hysbysu am y defnydd o offer radiograffeg, a dylid cadw tystiolaeth o hyn.</p>	<p>2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch</p>			
14	<p>Dylid diweddarau'r rheolau lleol fel eu bod yn dangos yr ardaloedd rheoledig yn glir ym mhob ystafell driniaeth, a sicrhau bod systemau addas i atal staff rhag cael mynediad i'r ardal reoledig pan fo pelydr-X yn cael ei gymryd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14(1); Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9</p>			



Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
14	Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle.	Safonau lechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 – 18 (1) (a) a (ii)			
14	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau radiograffeg yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Safonau lechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000			
15	Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygu staff clinigol gan gymheiriaid a chynnal archwiliadau rheolaidd.	Safonau lechyd a Gofal 3.1 a 3.3			
16	Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'n	Safonau lechyd a Gofal 3.5;			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>gyson:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes meddygol wedi'i lofnodi</li> <li>• Manylion adnabod y gweithiwr deintyddol proffesiynol sy'n darparu'r driniaeth</li> <li>• Gofod digonol i gynnwys manylion cleifion mewn cofnodion preifat, gan gynnwys eu cyfeiriad</li> <li>• Cynlluniau triniaeth (dylai fod copïau ar gael yng nghofnodion y cleifion)</li> <li>• Opsiynau triniaeth</li> <li>• Hanes cymdeithasol</li> <li>• Cyfiawnhad dros sganiau pelydrau-X ynghyd â'r canfyddiadau</li> <li>• Adalwadau cleifion</li> <li>• Archwiliadau periodontol sylfaenol</li> <li>• Archwilidau ceg allanol</li> </ul>	<p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
17	Dylai'r practis sicrhau bod unrhyw staff newydd a staff dros dro yn cael eu cyfarwyddo'n briodol – hynny yw, dylid sefydlu rhaglen hyfforddiant gyfarwyddo.	Safonau lechyd a Gofal 7.1			
17	Dylai'r holl staff gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.	Safonau lechyd a Gofal 7.1			
18	Dylid cadw cofnodion imiwneiddo'r holl staff.	Safonau lechyd a Gofal 2.4; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2			
19	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith ar gyfer creu, adolygu a diweddarau'n rheolaidd yr holl bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg, fel agwedd bwysig o danategu diogelwch y gofal a	Safonau lechyd a Gofal 2.1 a 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ddarperir ac er mwyn gwarchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff.	Cyffredinol 6.6			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....